

# Coed y Brenin

**Safle**: Coed y Brenin

**Dyddiad yr arolwg**: 15/06/2021

**Ardaloedd yr arolygon:** Llwybr dolen Pistyll Cain ac Afon Eden




Telor y Coed (*Phylloscopus sibilatrix*) yng Nghoed y Brenin.

# 1. Manylion yr arolwg

Gan gwmpasu'r un un ardal a llwybrau trawslun a wnaed yn 2020, roedd yr arolwg o Goed y Brenin yn cynnwys dau lwybr trawslun: un yn cymryd llwybr cerdded Pistyll Cain (7km o hyd) o'r brif ganolfan ymwelwyr gan ddilyn dolen i Bistyll Cain ac yn ôl; yr ail yn cymryd llwybr cerdded byrrach yr Afon Eden o'r ganolfan ymwelwyr at yr afon ac yn ôl (tua 1km o hyd). Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o'r ddau lwybr trawslun hwn.

Yn ystod yr arolwg, cofnododd arsylwyr unrhyw fywyd adar a welwyd neu a glywyd (yn enwedig arwyddion o weithgaredd bridio), gweithgaredd mamaliaid, 'digonedd' / helaethrwydd y sbwriel oedd ar hyd y llwybrau troed, amrywiaeth llystyfiant mewn lleoliadau penodol a sawl delwedd pwynt sefydlog ar hyd y llwybrau (gweler ffigur 2 am fanylion).


Amodau'r tywydd: roedd yr awyr yn glir (gorchudd cwmwl 0%) a gwyntoedd tawel (<10mya GO), gyda thymheredd cymharol oer ar ddechrau'r arolwg (7'C) a thymheredd ysgafn erbyn gorffen (18'C).




Ffigur 1. Map o ardal arolwg Coed y Brenin yn dangos y ddau lwybr trawslun a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021: mae'r llinell **oren** yn dangos y llwybr cylchol a gymerwyd o'r ganolfan ymwelwyr (dot **oren**) o amgylch llwybr cerdded Pistyll Cain ~ 7km o hyd; mae'r llinell frown yn dangos y llwybr cerdded cylchol llawer byrrach o'r ganolfan ymwelwyr at yr Afon Eden ac yn ôl.

# 2. Canlyniadau

Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r gwahanol arolygon isod. Mae Ffigur 2 yn rhoi trosolwg o leoliadau'r pethau mwy nodedig a welwyd, y pwyntiau arolwg allweddol a lleoliadau delweddau pwynt sefydlog. Cyfeirir at y pwyntiau hyn wedi'u rhifo yn nhestun y canlyniadau gan ddefnyddio cromfachau ac yna'r cod wedi'i rifo, er enghraifft '(**P3**)'.




Ffigur 2. Map o ardal arolwg Coed y Brenin yn dangos y llwybrau trawslun a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021 a lleoliadau pwyntiau arolwg allweddol: mae pwyntiau **coch** yn nodiadau targed y cyfeirir atynt yn y crynodeb canlyniadau isod; Mae pwyntiau **glas** yn safleoedd ffotograffiaeth pwynt sefydlog sydd wedi'u targedu'n bennaf ar hyd y llwybrau (gweler adran 2.5) ac mae'r dot **gwyrdd** ger Afon Eden yn safle arolwg llystyfiant.

## 2.1 Bywyd adar

Cofnodwyd cyfanswm o 32 o wahanol rywogaethau adar a 265 o unigolion yn ystod arolwg 2021 o Goed y Brenin (gweler tabl 1 isod). Roedd y cyfanswm hwn yn cynnwys 30 rhywogaeth o 219 o unigolion ar hyd llwybr trawslun hirach Pistyll Cain, a 14 rhywogaeth o 46 unigolyn ar y trawslun byrrach at yr Afon Eden. Y rhywogaethau mwyaf niferus a gofnodwyd oedd Drywod (39 i gyd), Titw Glas (37), Telor Penddu(19), Robiniaid (17) a Drywod Melyn Cribog / Eurben (16). Ymhlith yr hyn a welwyd a oedd fwy nodedig, roedd wyth Telor y Coed (sawl ceiliog / gwryw yn canu, a phâr bridio yn cario bwyd i'w nyth, ym **mhwynt 1** ar y map yn ffigur 2), deg Croesbig (y mwyafrif ohonynt yn adar yn hedfan uwchben, ond hefyd sawl gwryw yn canu), dau Wybedog Mannog / Smotiog, ceiliog Gwybedog Brith yn canu a'r Gog / Gwcw yn canu.

Cofnodwyd pedair rhywogaeth yn ystod arolygon 2021 a oedd yn absennol yn 2020, gan gynnwys y Gog, y Fronfraith, y Llinos Aur a'r Sguthan. I'r gwrthwyneb, gwelwyd chwe rhywogaeth yn 2020 na

chawsant eu cofnodi yn arolygon 2021: Trochwr / Bronwen y Dŵr, Coch y Berllan, Corhedydd y Coed, Bran Dyddyn, y Wennol a'r Llwydfron / Bronwen y Llwyn. Mae ffigurau 3 a 4 yn rhoi cymhariaeth fanylach o amrywiaeth a digonedd bywyd adar rhwng y ddwy flynedd.

Nid oedd unrhyw arwyddion amlwg bod bywyd adar yn cael ei effeithio'n negyddol gan y nifer fwy o bobl yn dychwelyd i'r safle poblogaidd hwn ar ôl yr arolygon sylfaenol yn ystod cyfnod clo 2020. Mae'r llwybrau wedi'u marcio'n dda a digonedd o orchudd coedwig trwchus i rywogaethau fodoli ynddo ac mae hyn yn debygol o leihau eithaf faint o aflonyddwch sy'n bosibl i'r mwyafrif o rywogaethau (ar wahân, efallai i'r rhywogaethau adar ysglyfaethus mwy gwyliadwrus fel bwncathod a gosog / gwyddwalch).

Tabl 1. Canlyniadau'r arolwg adar bridio yng Nghoed y Brenin.


| **Enw Safle** | | Coed y Brenin | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Math o arolwg** | | Adar bridio | | | |
| **Arolygwyr** | | Ben Porter | | | |
| **Dyddiadau'r arolygon** | | 15/06/2021 | | | |
| **Rhywogaethau** | **Enw gwyddonol** | **Trawslun neu safle** | | | **Tystiolaeth o fridio yn ystod ymweliadau** |
| | | **Llwybr cylchol Pistyll Cain** | **Llwybr cerdded cylchol yr Afon Eden** | **Cyfanswm y nifer** | |
| Dryw | *Troglodytes troglodytes* | 35 | 4 | 39 | Ceiliogod / gwrywod yn canu ac oedolion yn seinio rhybudd |
| Titw Glas | *Cyanistes caerulus* | 35 | 2 | 37 | Cywion wedi magu plu / hedfan |
| Telor Penddu | *Sylvia atricapilla* | 14 | 5 | 19 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Robin | *Erithacus rubecula* | 13 | 4 | 17 | Ceiliogod / gwrywod yn canu a chywion wedi magu plu / hedfan |
| Dryw Melyn Cribog / Eurben | *Regulus regulus* | 15 | 1 | 16 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Adar y To | *Passer domesticus* | | 15 | 15 | |
| Ji-binc | *Fringila coelebs* | 6 | 1 | 7 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Cnocell Fraith Fwyaf | *Dendrocopos major* | 2 | | 2 | |
| Siff Saff | *Phylloscopus collybita* | 9 | | 9 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Aderyn du | *Turdus merula* | | 3 | 3 | Cywion wedi magu plu / hedfan |
| Dringwr bach / Cripiedydd | *Certhia familiaris* | 2 | | 2 | |
| Titw Mawr | *Parus major* | 2 | | 2 | |
| Bronfraith | *Turdus philomelos* | 7 | 1 | 8 | Ceiliogod / gwrywod yn canu a chywion wedi magu plu / hedfan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Telor yr Helyg | *Phylloscopus trochilus* | 12 | 1 | 13 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Telor y Coed | *Phylloscopus sibilatrix* | 8 | | 8 | Ceiliogod / gwrywod yn canu ac oedolion yn cario bwyd |
| Sigl i Gwt Llwyd | *Motacilla cinereal* | 5 | | 5 | Cywion wedi magu plu / hedfan |
| Titw Cynffon Hir | *Aegithalos caudatus* | 3 | | 3 | |
| Titw Penddu | *Periapus ater* | 9 | | 9 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Llinos Bengoch | *Carduelis cabaret* | 1 | 1 | 2 | Ceiliog / gwryw yn canu |
| Pila Gwyrdd | *Carduelis spinus* | 12 | 6 | 18 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Gwybedog brith | *Ficedula hypoleuca* | 1 | | 1 | Ceiliog / gwryw yn canu |
| Gwybedog brych / Smotiog | *Muscicapa striata* | 2 | | 2 | |
| Telor y Cnau | *Sitta europaea* | 1 | 1 | 2 | |
| Telor yr Ardd | *Sylvia borin* | 5 | | 5 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Sgrech y Coed | *Garulus glandarulus* | 3 | 1 | 4 | |
| Bwncath | *Buteo buteo* | 1 | | 1 | |
| Croesbig | *Loxia curvirostra* | 10 | | 10 | Ceiliogod / gwrywod yn canu |
| Llwyd y Gwrych | *Prunella modularis* | 1 | | 1 | Ceiliog / gwryw yn canu |
| Gwcw / Gog | *Cuculus canorus* | 1 | | 1 | |
| Bronfraith fawr / Y Dresglen Fwyaf | *Turdus viscivorus* | 2 | | 2 | |
| Sguthan | *Columbus palumba* | 1 | | 1 | |
| Eurbinc / Jac-nico | *Carduelis carduelis* | 1 | | 1 | |
| **Cyfanswm y rhywogaethau** | | **30** | **14** | **32** | |
| **Cyfanswm niferoedd** | | **219** | **46** | **265** | |




Ceiliog Telor y Coed yn canu (*Phylloscopus sibilatrix*)

O gymharu'r ffigurau cyffredinol ar gyfer 2020 a 2021, amlygodd yr arolwg o'r ardal hon wahaniaethau bach o ran digonedd / helaethrwydd ac amrywiaeth bywyd adar (gweler ffigurau 3 a 4 isod). Mae'r cyfanswm o 265 o adar unigol a gofnodwyd yn 2021 15% yn is na'r ffigur o 314 ar gyfer yr un ardal yn 2020. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn digonedd yn debyg i'r hyn a geir ar draws yr holl safleoedd eraill (yr ucheldir a'r iseldir) a gafodd sylw yn ystod yr arolygon hyn. Mae hyn, unwaith eto, fwya’ tebyg i'w briodoli i'r amodau tywydd gwahanol iawn yng ngwanwyn 2020 o'i gymharu â 2021, a'r oedi yn y tymor gan arwain at dymhorau bridio diweddarach i rai rhywogaethau, a chofnodwyd niferoedd llawer is o gywion wedi magu plu / hedfan. Mewn cyferbyniad â'r gwahaniaeth hwn mewn digonedd, roedd yr amrywiaeth yn debyg iawn ar gyfer 2020 a 2021, gyda 32 o rywogaethau wedi'u cofnodi yn 2021, o'i gymharu â 33 o rywogaethau yn 2020.




Ffigur 3. Digonedd adar (h.y. nifer yr adar unigol a gofnodwyd) ar hyd y prif lwybrau trawslun yn 2020 (llwyd golau) a 2021 (llwyd tywyllach).



Ffigur 4. Amrywiaeth adar (h.y. cyfanswm nifer y rhywogaethau) ar hyd y prif lwybrau trawslun yn 2020 (llwyd golau) a 2021 (llwyd tywyllach).

## 2.2 Llystyfiant

Ychydig o arwyddion oedd yna o effeithiau andwyol yn sgil defnydd dynol o'r ardal o ran cymunedau llystyfiant. Roedd yna un safle a oedd yn ymddangos fel petai nifer yr ymwelwyr a'r defnydd dynol ohono yn cael ei effeithio o amgylch Pistyll Cain: roedd llwybrau o amgylch y naill ochr i'r afon, i rai tua rhai o'r golygfannau ac yn arwain at byllau mannau nofio yn dangos llystyfiant cywasgedig a mwsogl a llystyfiant wedi dirywio ar hyd y llwybrau hyn. Gweler y ddelwedd isod am enghraifft o'r effaith hon (tynnwyd y llun ym mhwynt 4 ar y map yn ffigur 2).



Erydiad ar lan yr afon lle mae llwybrau wedi'u creu a'u defnyddio'n helaeth i gael mynediad at Bistyll Cain o'r prif drac (pwynt **4** ar y map yn ffigur 2).

Cynhaliwyd arolwg llystyfiant yn 2020 o amgylch y meinciau picnic wrth ymyl Afon Eden (cyfeirnod grid SH721268 - wedi'i ddangos gyda phwynt gwyrdd ar y map yn ffigur 2). Ail adroddwyd yr arolwg hwn yn 2021 i gymharu sut roedd fflora ar y ddaear yn yr ardal hon ar ôl dychwelyd i lefelau uwch o ran nifer yr ymwelwyr / pobl yn cerdded ac achosion o sathru. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg hwn yn nhabl 2 isod. Mae cyfanswm yr 17 o rywogaethau a gofnodwyd yn 2021 ychydig yn is nag yr amrywiaeth o 19 o rywogaethau planhigion a ddarganfuwyd yn 2020; roedd yn amlwg, fodd bynnag, fod digonedd cyffredinol y planhigion blodeuol yn llai yn y fan hon, yn ôl y disgwyl gyda mwy o sathru o amgylch y safle hwn.

Tabl 2. Arolwg llystyfiant cyffredinol o amgylch ardal bicnic Afon Eden (pwynt gwyrdd ar y map yn ffigur 2).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | Coed y Brenin | Lleoliad | Man picnic Afon Eden |
| **Math o arolwg** | Arolwg llystyfiant cyffredinol | Radiws bras (m) yr arolwg | 10 |
| **Syrfewyr** | Ben Porter | Cyf Grid | SH721268 |
| **Dyddiad (au) yr arolwg** | 15/06/2021 | | |

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Digonedd (sgôr DAFOR) |
|---|---|---|
| Mwsogl Blewog Mawr | Rhytidiadelphus triquetus | Digon |
| Cnau daear | Conopodium majus | Aml |
| Llygad y Dydd | Bellis perennis | Aml |
| Suran y Coed | Oxalis acetosella | Aml |
| Briwydd y Rhostir | Galium saxatile | Aml |
| Hesg Rh. | | Aml |
| Glaswellt Rh. | | Aml |
| Crafanc brân y gweunydd | Ranunculus acris | Achlysurol |
| Fioled / llysiau'r drindod Rh. | Viola sp. | Achlysurol |
| Mefus Gwyllt | Fragaria vesca | Achlysurol |
| Glaswellt fernel melys | Anthox anthum | Achlysurol |
| Rhwyddlyn y mynydd / gwrych | Veronica montana | Achlysurol |
| Gwlydd Melyn Mair | Lysimachia nemorum | Achlysurol |
| Rhedyn Caled | Blechnum spicant | Achlysurol |
| Gwalchlys Rh. | | Achlysurol |
| Rhwyddlwyn / Llygad Doli | Veronica chamaedrys | Prin |
| Llysiau'r Gingroen | Jacobaea vulgaris | Prin |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | **17** | |



Uchod: ardal y fainc bicnic ger Afon Eden ym mis Mehefin 2020, pan gofnodwyd amrywiaeth a digonedd mawr o fywyd planhigion oherwydd y defnydd isel iawn o'r ardal hon yn ystod y gwanwyn.



Uchod: yr un ardal ym mis Mehefin 2021, lle cofnodwyd llai o amrywiaeth a llai o ddigonedd o blanhigion a rhywogaethau blodeuol.

## 2.3 Sbwriel

Yn gyffredinol, roedd maint y sbwriel a ddarganfuwyd yn ystod y ddau drawslun hyn yn isel iawn, yn enwedig o'i gymharu â rhai o'r safleoedd eraill a arolygwyd yn ystod 2021 ledled Gogledd Cymru. Cofnodwyd cyfanswm o 10 eitem, yn cynnwys chwe math o sbwriel gwahanol (gweler tabl 3 isod). Bagiau baw cŵn plastig oedd yr eitem fwyaf niferus a ddarganfuwyd (tri i gyd), ac yna poteli plastig (dau) a phlastr meddygol (cymysgedd o blastig a chotwm). Mae'r cyfanswm hwn yn fwy na'r ddwy eitem a ddarganfuwyd yn 2020, ond roedd yn  ddymunol o isel o ystyried defnydd a phoblogrwydd y safle hwn.

Tabl 3. Canlyniadau'r arolwg sbwriel yng Nghoed y Brenin.

| **Enw'r Safle** | Coed y Brenin | | |
|---|---|---|---|
| **Math o arolwg** | Arolwg sbwriel | | |
| **Arolygwyr** | Ben Porter | | |
| **Dyddiad (au) yr arolwg** | 15/06/2021 | | |
| **Math o sbwriel** | **Quantity** | | |
| | **Pistyll Cain** | **Afon Eden** | **Cyfanswm** |
| Bag Baw Cŵn | | 3 | 3 |
| Potel blastig | 2 | | 2 |
| Pecyn lapio melysion | | 1 | 1 |
| Dilledyn | 1 | | 1 |
| Croen banana | 1 | | 1 |
| Plastr | 2 | | 2 |
| **Cyfanswm y mathau o sbwriel** | **4** | **2** | **6** |
| **Cyfanswm yr eitemau sbwriel** | **6** | **4** | **10** |

## 2.4 Pethau eraill a welwyd

Roedd yn arolwg tawel o ran gweld pryfed a mamaliaid achlysurol eraill. Cofnodwyd sawl twmpath nythu o Forgrug Coed Blewog (*Formica lugubris*) ar hyd y trac trwy'r goedwig ar ddolen gylchol Pistyll Cain, yn enwedig o amgylch yr ardal a ddynodir gan bwynt **2** ar y map yn ffigur 2.

## 2.5 Delweddau llwybr pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr llystyfiant

Ar gyfer adroddiad eleni, dangosir delweddau o 2020 (colofn chwith) ochr yn ochr â rhai o 2021 (colofn dde) yn yr un lleoliadau ar gyfer dibenion cymharu.













Lleoliadau delwedd: **rhes uchaf** ar ddechrau llwybr Pistyll Cain yn **P1** ar y map yn ffigur 2; **rhes waelod** ar hyd dolen Pistyll Cain ger llannerch yn y coed ym mhwynt **P2** ar y map yn ffigur 2.